

Cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy gefnogi'r sector gwirfoddol a gwirfoddoli

Gwerth y sector

Mae dysgu yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei integreiddio drwy gydol bywyd plentyn – mewn ysgolion, o fewn teuluoedd a chymunedau. Mae'r cwricwlwm newydd yn cydnabod hyn, ac rydym yn croesawu'r sylw y mae'r Gweinidog yn ei roi i ysgolion cymunedol a fyddai'n helpu i gysylltu ysgolion â theuluoedd a chymunedau.

Mae'r sector gwirfoddol yn ychwanegu'n aruthrol ar brofiad dysgu plentyn. Yn ogystal â chysylltu ysgolion â chymunedau, gall cynnwys y sector gwirfoddol yn y cwricwlwm newydd wella dysgu a datblygiad plentyn drwy gynnig safbwyntiau newydd a gwahanol fathau o brofiadau y gellir eu cyflwyno gan yr ysgolion eu hunain. Mae'r safbwyntiau a'r profiadau hyn yn mynd ati'n weithredol i gefnogi'r pedwar diben a phrofiad addysgol ehangach bob plentyn.

Camau gweithredu'r sector gwirfoddol

Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) – Ysgolion Heddwch

Yn ystod 2021-22, bu cynllun [Ysgolion Heddwch](#) WCIA yn gweithio gydag ysgolion ledled Cymru i ymwreiddio heddwch a dinasyddiaeth fyd-eang yn y cwricwlwm. O ganlyniad i'r rhaglen eleni, gwnaeth mwy na 4000 o bobl ifanc ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a gwerthoedd dinasyddiaeth fyd-eang, sydd hefyd yn cefnogi cyflogadwyedd. Gwnaeth y disgyblion a gymerodd ran fagu hyder i rannu eu barn a chymryd camau gweithredu gwybodus.

Achub y Plant – Ymgysylltu â Rhieni

Mae [Achub y Plant](#) yn gweithio gyda chydweithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot i addasu hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus ysgol gyfan ar 'Ymgysylltu â Rhieni', gan ganolbwyntio ar ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Bydd staff yn derbyn hyfforddiant i fagu eu hyder mewn gweithio gyda rhieni sy'n agored i niwed, a bydd rhieni yn cael eu cynnwys i gyd-gynhyrchu cyfleoedd i ddod â rhieni eraill i mewn i'r ysgol i gefnogi dysgu eu plant. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn cael ei gynnwys yn y model hwn yn unol â'r fframwaith Ysgolion Cymunedol.

Credir bod trafodaethau'n chwalu o ran gweithredu

Rydym yn poeni nad yw ymgysylltiad y sector gwirfoddol ag elfennau amrywiol y gwaith o weithredu'r cwricwlwm wedi bod yn gyson. Er bod y sector gwirfoddol yn cael ei gynnwys mewn rhai grwpiau a fforymau, nid yw bob amser wedi bod yn ganolog i'r ffordd y mae'r grwpiau hyn yn gweithredu. Rydym yn poeni hefyd bod grwpiau wedi meddwl ddwywaith cyn eu cynnwys o ganlyniad i'r pandemig, felly mae llai o bwysigrwydd wedi'i roi i leisiau'r sector gwirfoddol wrth weithredu'r cwricwlwm.

Er enghraifft, cafodd gweithgor ei sefydlu gan y Fforwm Rhanddeiliaid Cwricwlwm yn 2021 i edrych ar sut gallai'r sector gwirfoddol (ac eraill) lunio deunyddiau a chynnig dulliau eraill o gymorth i ysgolion lleol (er enghraifft, drwy staff neu wirfoddolwyr lleol) wrth iddynt ddatblygu eu cwricwla

Ileol newydd ac a gellid cytuno ar broses ar gyfer argymell/achredu deunyddiau a mudiadau drwy Hwb neu blatfform tebyg – heb gyfyngu ar ryddid ysgolion unigol i lunio eu cwricwla eu hunain o fewn y fframwaith cenedlaethol. Fodd bynnag, ar ôl cyfarfod cwmpasu cychwynnol, nid yw'r grŵp wedi cwrdd eto. Nawr, mae grŵp ar wahân yn edrych ar adnoddau a thrydydd yn edrych ar ysgolion cymunedol. Yn ôl pob golwg, nid yw'r rhain yn gysylltiedig â'i gilydd.

Galwad allweddol: I lunio neu gomisiynu cyfeiriadur byw a darparu gwasanaeth paru ar gyfer y cyrff a'r adnoddau hynny sy'n hanfodol i weithredu'r cwricwlwm. Bydd hyn yn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i ysgolion ddod o hyd i wasanaethau ac adnoddau priodol i gyfoethogi'r cwricwlwm, a gall cyrff o'r sector gwirfoddol gysylltu ag ysgolion mewn modd effeithlon. Gallai awdurdodau lleol, Hwb neu gorff gweithredu cenedlaethol fod mewn sefyllfa dda i gefnogi hyn.

Gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli wedi'i gysylltu ag amrywiaeth eang o fuddion i ddisgyblion oed ysgol. Mwy o ymdeimlad o empathi, cydweithio, gwydnwch, datrys problemau ac o fod yn perthyn i gymdeithas - dim ond rhai o'r [nodweddion cymeriad cadarnhaol \(Saesneg yn unig\)](#) yw'r rhain a gaiff eu datblygu drwy gymryd rhan mewn gweithredu gwirfoddol. Mae [sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdano \(Saesneg yn unig\)](#) hefyd wedi'u cysylltu â gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol, ac mae llawer wedi'i nodi am yr effeithiau hirdymor cadarnhaol ar [iechyd meddwl a llesiant \(Saesneg yn unig\)](#). Ynghyd â hyn, mae [cydberthynas gadarnhaol wedi'i nodi rhwng gwirfoddoli a pherfformiad academaidd gwell \(Saesneg yn unig\)](#). Mae buddion gwirfoddoli ieuencid yn mynd y tu hwnt i'r unigolyn, oherwydd cyfeiria gwaith ymchwil at [wirfoddoli fel bloc adeiladu o gydlyniant cymunedol \(Saesneg yn unig\)](#), sy'n hyrwyddo integreiddio, dealltwriaeth, goddefgarwch ac ymddiriedaeth.

Mae pobl ifanc yng Nghymru yn chwarae eu rhan mewn gwlad sydd wedi'i hadeiladu ar ysbryd cymunedol fel [ymgyrchwyr dros hawliau eraill](#) ac yn [eiriolwyr dros warchod yr amgylchedd](#) a'r [laith Gymraeg](#), ymhlith pethau eraill. Mae llawer yn cyfrannu at achosion sy'n agos at eu calonnau fel rhan o fentrau ysgol, boed hynny drwy gyrsiau fel Bagloriaeth Cymru, Gwobrau Dug Caeredin, neu drwy weithgareddau allgyrsiol penodol fel Eco-Glybiau neu Gynghorau Ysgol. Yn anffodus, nid ydym yn ffyddiog fod gan bob unigolyn ifanc fynediad at yr un faint a'r un amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli. Nid oes sianeli cyfathrebu safonedig rhwng y sector gwirfoddol ac ysgolion yng Nghymru ar lefel genedlaethol. Rydym yn credu y bydd y gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn gyfle i feithrin cysylltiadau cryf rhwng y sectorau hyn er mwyn sicrhau bod gweithredu gwirfoddol yn cael ei integreiddio yng nghwricwlwm pob ysgol yng Nghymru.

Camau gweithredu'r sector gwirfoddol

Volunteering Matters: Stori Ryan

“Yn ystod haf 2015, daeth Cara ac Amy o'r prosiect '[Sex Matters Too \(Saesneg yn unig\)](#)' i fy ysgol i wneud gwasanaeth recriwtio gwirfoddolwyr. Gwnaethon nhw egluro sut mae'r prosiect yn gweithio. Roeddwn i'n gwybod bod hwn yn rhywbeth y byddai gennyf ddiddordeb yn ei wneud, felly fe wnes i gofrestru. Hoffwn fod yn athro ysgol uwchradd, felly roeddwn i'n credu y byddai gwirfoddoli gyda'r prosiect 'Sex Matters Too' yn gyfle gwych i wella fy sgiliau a chyflwyno gwybodaeth bwysig i'm cymheiriaid.

“Pan ddechreuais i wirfoddoli ar y prosiect, roeddwn i’n nerfus ynghylch cyflwyno’r cynnwys ac am fy ngallu i gyflwyno gweithdai i gynulleidfa. Drwy hyfforddiant ‘Sex Matters Too’, gallais oresgyn hyn drwy gael yr holl wybodaeth roedd ei hangen arnaf, a thrwy wybod bod Cara a chydlynwyr yr hwb yno i roi cymorth i mi.

“Roeddwn i wedi cael gwybod yn ddiweddar bod gennyf anhwylder gorbryder cysylltiedig â straen, a thrwy wirfoddoli a chyflwyno gweithdai, rwyf wedi gallu canolbwyntio, ac mae hyn wedi fy helpu i fynd i’r afael â’r gorbryder.

“Mae gwirfoddoli wedi rhoi’r cyfle i mi ddatblygu fy sgiliau a gwthio fy hun fel unigolyn. Ni fyddwn wedi gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn heb gymryd rhan ym mhrosiect ‘Sex Matters Too’ – rwyf wedi dysgu cymaint o bethau y gallaf eu defnyddio i ddatblygu fy hun ymhellach yn y dyfodol.”

Galwad allweddol: I swyddogion addysg fynd ati’n broweithredol i ymhél â’r adolygiad i ddod o’r polisi gwirfoddoli er mwyn sicrhau y gellir cryfhau gwirfoddoli seiliedig ar ysgol a ffurfiau eraill o wirfoddoli ieuentid, gan gynnwys o fewn ysgolion.

Adnoddau a gweithgareddau cyfoethogi

Mae’r cwricwlwm newydd yn rhoi’r rhyddid i ysgolion ddylunio cwricwlwm lleol sydd wedi’i deilwra i’w disgyblion. Mae’r sector gwirfoddol yn croesawu’r hyblygrwydd hyn a gwyddom y gallem ni ddarparu cymorth mewn ysgolion sy’n cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion. Gall hyn fod ar draws holl feysydd a phrofiadau dysgu’r cwricwlwm a gall amrywio o gymorth i ddylunio gwersi i ymweliadau a chanolfannau preswyl awyr agored.

Rydym yn croesawu’r ffaith bod y cwricwlwm newydd yn grymuso ysgolion yn unigol, ond gall hyn ei gwneud hi’n anoddach i’r sector gwirfoddol yn gyffredinol gynnig cymorth i ysgolion.

Yn aml, mae mudiadau’r sector gwirfoddol yn denu grantiau neu ffynonellau cyllido eraill i gyflenwi’r gwaith hwn o gyfoethogi’r cwricwlwm. Mae hyn yn ychwanegu gwerth ac adnoddau at y system ysgol yng Nghymru. Fodd bynnag, caiff rhai elfennau eu cyllido gan wahanol rannau o Lywodraeth Cymru nad ydynt bob amser yn cydlynu’n llawn â’i gilydd. Nid yw llawer o’r ffrydiau cyllido hyn wedi’u diweddarau ers rhoi’r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Byddai dull gweithredu cydlynol, gyda rhaglen gomisiynu a/neu gyflwyno grantiau tryloyw ar gyfer mudiadau’r sector gwirfoddol yn fwy cyfartal, ac yn annog dulliau arbrolol ac arloesol o gefnogi’r Cwricwlwm i Gymru. Gallai hefyd gynnig cyfleoedd i fudiadau’r sector gwirfoddol uwchsgilio o ran y cwricwlwm newydd.

Yn ogystal â chyfoethogi’r cwricwlwm o fewn oriau ysgol, mae llawer o gyrff gwirfoddol, gan gynnwys grwpiau ffydd, yn cynnig ‘Clybiau Gwaith Cartref’ a gweithgareddau tebyg ar ôl ysgol, mew partneriaeth ffurfiol mwy neu lai ag un ysgol leol neu ragor. Os yw’r rhain i gyflwyno’r budd mwyaf posibl i’r dysgwyr cysylltiedig, yn enwedig pan fydd dysgwyr o wahanol ysgolion yn dysgu gyda’i gilydd, mae nifer o’r un ystyriaethau yn berthnasol, yn enwedig o ran cysondeb hirdymor y cymorth.

Camau gweithredu’r sector gwirfoddol

Busnes yn y Gymuned – Rhaglen SgiliauBywyd Barclays

Gwnaeth Senedd Ieuenctid Cymru ryddhau adroddiad yn 2019, a chanfu nad oedd 89% o oedolion yn credu bod addysgu sgiliau bywyd yn cael ei flaenoriaethu'n briodol mewn ysgolion. Dim ond 44% o athrawon a oedd yn teimlo bod ganddyn nhw'r sgiliau/profiad angenrheidiol i addysgu sgiliau bywyd. Gall gwersi sgiliau bywyd fod yn adnodd i helpu i fynd i'r afael â'r effaith negyddol ar lesiant myfyrwyr yn sgil COVID-19, gyda 77% o fyfyrwyr [SgiliauBywyd Barclays \(Saesneg yn unig\)](#) yn nodi uchelgeisiau a dyheadau uwch, ac 88% yn fwy awyddus i wneud yn well mewn astudiaethau academaidd a galwedigaethol.

Galwadau allweddol:

- Rydym yn cefnogi'r gwaith ar wella Hwb fel bod swyddogaethau chwilio'n cyd-fynd â'r cwricwlwm ac mae mudiadau'r sector gwirfoddol yn cael arweiniad ar sut i ysgrifennu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm. Mae ymgysylltu â'r sector gwirfoddol yn parhau i fod yn hanfodol yn y broses hon.
- Cronfa gyllid a chymorth gweinyddol ar gyfer cyfoethogi'r cwricwlwm ac adnoddau yn cael eu comisiynu neu eu caniatáu i'r sector gwirfoddol gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn galluogi mwy o gomisiynu strategol a thryloywder ynghylch y broses.
- Gallai Llywodraeth Cymru gyd-gynhyrchu canllawiau ar gyfer ysgolion ynghylch ymgysylltu â'r sector gwirfoddol (a darparwyr allanol eraill), gan annog ysgolion i chwilio am gymorth priodol o fewn eu cynefin. Byddai hyn yn annog cydlyniant ar draws clystyrau a dalgylchoedd, a gallai gynnwys astudiaethau achos o bartneriaethau llwyddiannus ar draws amrediad o feysydd dysgu a phrofiad, mathau o ysgolion ac ati.